# ER EICH MWYN CHI

CANLLAW RHAN AMSER
2021/22




ASTUDIAETH RAN AMSER ER MWYN LLWYDDO'N LLAWN AMSER

# CROESO I COLEG GWENT

## Eisiau dysgu sgil newydd? Troi diddordeb yn broffesiwn? Neu awydd newid gyrfa?

Yna, beth am astudio'n rhan-amser yn un o'r colegau sy'n perfformio orau yng Nghymru?*. Mae ein hamrywiaeth enfawr o gyrsiau yn cael eu cynnal yn y boreau, prynhawniau a gyda'r nos trwy gydol y flwyddyn i gyd-fynd â'ch ffordd o fyw. Maen nhw wedi'u creu er hwylustod!

Fel un o'r darparwyr mwyaf yng Nghymru, mae ein darlithwyr a'n staff yn ymroi i'ch helpu i gyflawni eich amcanion. Mae ein pum canolfan ddysgu unigryw wedi'u lleoli ar draws pum bwrdeistref, i'ch galluogi chi i astudio yn nes at adref, gan wario llai ar deithio a threulio llai o amser yn teithio - perffaith i chi.

Gyda chymuned o dros 16,000 o fyfyrwyr, cysylltiadau diwydiannol a phrifysgolion partner, mae yma gyfleoedd gwych i feithrin cyfeillgarwch ac ehangu eich rhwydweithiau proffesiynol. Nid rhywbeth ar gyfer rhai 16 oed yn unig yw coleg; rydym yn croesawu myfyrwyr o bob cefndir a phob oed; dydy hi byth yn rhy hwyr i ddechrau eich stori lwyddiant gyda ni!

## CYSYLLTWCH Â NI

Cysylltwch â'n tîm Recriwtio Myfyrwyr cyfeillgar i gael gwybod mwy am ein cyrsiau. Gallwn eich helpu gyda chwestiynau ynghylch cyrsiau a therfynau amser allweddol, cymorth dysgu ychwanegol, gwybodaeth ynghylch cyllid, ein campysau a'n diwrnodau agored.

E-bostiwch:

**helo@coleggwent.ac.uk**

Ffoniwch:

**01495 333777**

(Croesawn alwadau yn Gymraeg).

## SUT I WNEUD CAIS

Mae gwneud cais am gwrs rhan-amser yn Coleg Gwent yn syml iawn. Edrychwch ar y cyrsiau sy'n mynd â'ch bryd yn y canllaw, yna gwnewch gais drwy ein gwefan:

**www.coleggwent.ac.uk/parttime**

neu drwy ffonio:

**01495 333777**

(Croesawn alwadau yn Gymraeg).

Gallwch hefyd siarad â thiwtoriaid am gyrsiau rhan-amser yn ein digwyddiadau agored.

Cewch fwy o wybodaeth yn:

**www.coleggwent.ac.uk/open**



**Rydym yn ychwanegu cyrsiau rhan amser newydd o hyd - daliwch i edrych ar ein gwefan am ddiweddariadau!**

**Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk/parttime**

# CYNNWYS


2 Croeso
4 Ein Campysau
6 Cyfrifon Dysgu Personol
7 Cyflogwyr
8 Cyfrifeg, Busnes a'r Gyfraith
10 Amaethyddiaeth a Gofal Anifeiliaid
12 Celf a Dylunio, y Cyfryngau, Ffotograffiaeth
14 Arlwyo a Lletygarwch
16 Cyfrifiadura a Thechnoleg Ddigidol
18 Adeiladwaith
20 Addysg
22 Peirianneg a Moduron
24 Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill
25 Sgiliau Byw'n Annibynnol
26 Trin Gwallt a Therapi Harddwch
28 Iechyd, Gofal a'r Blynyddoedd Cynnar
30 Cerddoriaeth, Drama a Dawns
31 Llwybr At Radd (Mynediad at Addysg Uwch)
32 Chwaraeon, Teithio a Gwasanaethau Cyhoeddus
34 Addysg Uwch


## HYNOD GYFLEUS.
## PERFFAITH I CHI



*Adroddiad ar Ddeilliannau Dysgwyr Adran Addysg a Sgiliau Llwyodraeth Cymru 2018/19
**Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

# EIN CAMPYSAU



## Campws Brynbuga

Mae ein campws gwledig ym Mrynbuga yn gartref i'n cyrsiau amaethyddiaeth, chwaraeon, gwasanaethau hamdden a chyhoeddus. Wedi'i leoli yng nghanol cefn gwlad hardd ar gyrion tref hanesyddol Brynbuga, dyma'r campws i'r unigolion hynny sydd â diddordeb yn yr awyr agored.

Ymhlith y cyfleusterau ar y campws mae Llyfrgell o'r radd flaenaf, caffi i'r myfyrwyr, fferm weithio 296 acer, canolfannau anifeiliaid a cheffylau, campfa wedi'i hailwampio a chyfleusterau addysg awyr agored. Gellir cyrraedd y campws yn ddidrafferth oddi ar draffordd yr M4, ac mae parcio am ddim ar gael yno. Mae'n lleoliad cyfleus ar gyfer nifer o drefi ar draws De Ddwyrain Cymru.

## Parth Dysgu Torfaen

Ym mis Ionawr 2021, agorwyd ein campws bwrpasol newydd, sy'n cynnwys amrywiaeth o gyfleusterau gwych. Mae'r cyfleusterau'n cynnwys neuadd berfformio, ystafelloedd cerddoriaeth a chyfryngau, stiwdio gelf, ardaloedd gweithio hyblyg a llyfrgell gyda'r holl adnoddau perthnasol.

Mae'r campws wedi'i leoli yng nghanol Cwmbrân, dafliad carreg o'r orsaf drenau, felly mae modd cyrraedd yno yn ddidrafferth gyda thrafnidiaeth gyhoeddus. Ar y campws mae maes parcio sy'n llai na 10 munud o'r M4.






## Campus Dinas Casnewydd

Mae ein campws Dinas Casnewydd yn cynnig cyfleusterau gwych ac amrywiaeth eang o gyrsiau galwedigaethol ac academaidd sy'n cyd-fynd â chyfleoedd gyrfaol yr ardal. Mae hyn yn cynnwys gweithdai peirianneg ac adeiladu gyda'r offer perthnasol, stiwdios celf, labordai gwyddoniaeth a salonau trin gwallt a harddwch, yn ogystal ag ystafell dechnoleg ddigidol arloesol.

Mae ein campws mewn lleoliad gwych. Mae ychydig funud i ffwrdd o ganol y ddinas, ac mae parcio am ddim ar gael ar y safle. I'r bobl hynny sy'n teithio o ardaloedd pellach, mae'r campws wyth munud i ffwrdd o'r M4.



## Campws Crosskeys

Mae ein campws mwyaf, sef campws Crosskeys, yn cynnig amrywiaeth cyfoethog a diddorol o gyrsiau galwedigaethol. Mae'n cynnwys theatr drawiadol ar gyfer y celfyddydau perfformio, bwyty hyfforddi sydd ar agor i'r cyhoedd, salonau trin gwallt a harddwch sydd hefyd yn agored i'r cyhoedd, offer gweithgynhyrchu sy'n cyrraedd safon y diwydiant a Llyfrgell gydag ystafell gyfrifiaduron mhac, llyfrau a defnydd o gyfnodolion ar-lein.

Mae'r coleg wedi'i leoli drws nesaf i heol Risga yn Crosskeys. Mae'n ddewis poblogaidd i dysgwyr yn ardal Caerffili a thu hwnt. Mae'r ffordd i'r campws yn ddidrafferth, ac mae'n cynnig maes parcio am ddim a gorsafoedd bysiau cyfleus y tu allan i'r campws.



## Parth Dysgu Blaenau Gwent

Agorwyd Parth Dysgu Blaenau Gwent yn 2012, ac mae'n cynnig cyfleusterau o'r radd flaenaf. Mae atriwm agored o amgylch y campws, felly mae'n gwneud i bobl deimlo'n dda o'r eiliad maent yn cerdded drwy'r drysau. Cynigir cyrsiau ar gyfer amrywiaeth o ddiwydiannau, ac mae'r campws yn ymfalchïo mewn gweithdai adeiladu, bae chwaraeon modur, salonau trin gwallt a harddwch, ystafell olygu ar gyfer y cyfryngau, ac ystafelloedd cyfrifiaduron mac.

Mae Parth Dysgu Blaenau Gwent wedi'i leoli ychydig funud ar droed o orsaf drenau Tref Glynebwy, ac mae'n cysylltu â nifer o lwybrau teithio bws. Cewch hefyd barcio am ddim ger y campws.

# CYFRIFON DYSGU PERSONOL

Mae Cyfrifon Dysgu Personol yn gyrsiau am ddim sy'n rhoi sgiliau a chymwysterau newydd ichi - sgiliau y mae cyflogwyr lleol yn chwilio amdanynt - i'ch helpu i gymryd mantais o brinder sgiliau a datblygu eich gyrfa.

Yn ogystal, maent yn hyblyg - rydym yn ceisio darparu addysg sy'n cyd-fynd ag ymrwymiadau teuluol a gwaith pobl. Byddwch yn dod o hyd i nifer o swyddi gwag gwych sy'n talu'n dda ar ddiwedd y cyfan - pa un a ydych eisiau datblygu eich gyrfa ddewisol neu newid gyrfa'n llwyr!



## I WNEUD CAIS, MAE'N RHAID I CHI:

- Fod mewn gwaith
- Yn ennill llai na £26,000 y flwyddyn
- Dros 19 oed
- Byw yng Nghymru

AIL-LUNIWCH EICH GYRFA GYDA

**CHYFRIF DYSGU PERSONOL**

**Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk/pla**

# ER MWYN CYFLOGWYR

Rydym yn gwneud mwy na dim ond cynnig cyrsiau hyfforddi i unigolion. Rydym hefyd yn gweithio gyda rhwydwaith o gyflogwyr lleol ac yn eu cefnogi nhw drwy ddarparu hyfforddiant, llwybrau at gyllid a gwella cyfleoedd busnes lleol. Gallwch chi a'ch busnes gymryd mantais o'r canlynol yn Coleg Gwent, yn ogystal â'n cyrsiau rhan amser.



## HYFFORDDIANT

Cofrestrwch aelod o staff ar gyfer un o'n cyrsiau a drefnwyd, neu trefnwch gwrs hyfforddi penodol ar gyfer criw o dysgwyr. Wrth weithio mewn partneriaeth agos gyda chi, gallwn lunio cynllun hyfforddi pwrpasol neu ddatblygu cwrs sydd yn ateb gofynnon eich busnes.

## PARTNERIAETHAU Â CHYFLOGWYR

Mae nifer o ffyrdd y gallwn weithio gyda'ch sefydliad fydd yn elwa pawb sydd ynghlwm â'r gwaith. Mae ein perthynas â busnesau wedi annog cydweithio ac arloesi sydd o fudd i ddysgwyr, eich busnes a'r economi ehangach.

## CYLLID

**Gallech chi fod yn gymwys!**

Fel coleg, gallwn ddarparu nifer o gynlluniau ariannu ar gyfer eich busnes. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau megis Kickstart, Upskilling@Work, ReAct a Farming Connect.



## PRENTISIAETHAU

Mae prentisiaethau'n helpu eich gweithwyr i ennill cymwysterau gwerthfawr a sgiliau ymarferol a gydnabyddir gan y diwydiant. Gallwn weithio gyda chi i deilwra amserlen hyfforddi Prentisiaethau i weddu i'ch anghenion. Os yw eich busnes yng Nghymru, gallwch fanteisio ar y rhaglen am ddim!

**Mae ein tîm Ymgysylltu â Chyflogwyr ar gael i helpu. I drafod eich anghenion, cysylltwch â ni, employers@coleggwent.ac.uk neu ewch i coleggwent.ac.uk/employers**

# CYFRIFEG, BUSNES A'R GYFRAITH

**Cyfoethogwch wybodaeth eich busnes gydag un o'n cyrsiau Cyfrifeg, Busnes neu yn y Gyfraith.**


P'un a ydych yn dymuno cymhwyso fel cyfrifydd trwy gymhwyster AAT neu wella'ch sgiliau cadw cyfrifon ar gyfer eich busnes eich hun, mae gennym gyrsiau sy'n gweddu i amrywiaeth o anghenion.

Ar ben hyn, mae mwy o ofyn am swyddi mewn gwasanaethau ariannol a phroffesiynol yng Nghymru i'r dyfodol, felly mae'n bosib y bydd ystod lawn o gyfleoedd swyddi ar gael i chi. (Gyrfa Cymru)



*Ar ôl gweithio ym maes Adnoddau Dynol am 12 mlynedd heb unrhyw hyfforddiant ffurfiol, penderfynais astudio'r pwnc yn swyddogol a chyflawni'r cymhwyster perthnasol. Roedd Coleg Gwent yn gallu cynnig cwrs undydd wythnosol, ac roedd astudio fel hyn yn addas i mi. Fy uchelgais tymor hir yw datblygu o fewn fy ngyrfa AD.*

**Lucinda Gatteral**
Adnoddau Dynol Canolradd Lefel 5 CIPD



| | Lefel | BG | C | DC | T |
|---|---|---|---|---|---|
| AAT Mynediad i Gadw Cyfrifon a Meddalwedd Cyfrifeg Gyfrifiadurol | - | | | ✓ | ✓ |
| AAT Tystysgrif mewn Cyfrifeg | 2 | | | ✓ | |
| AAT Diploma mewn Cyfrifeg | 3 | | | ✓ | |
| AAT Diploma Proffesiynol mewn Cyfrifeg | 4 | | | ✓ | |
| Cadw Cyfrifon Syml - Cwrs Hunangymorth | - | | | ✓ | |
| Dyfarniad BIIAB Deiliaid Trwyddedau Personol | 2 | | | ✓ | |
| CILEx Y Gyfraith ac Ymarfer | 6 | | | ✓ | |
| CILEx Y Gyfraith ac Ymarfer (Astudiaethau Cyfreithiol) | 3 | | | ✓ | |
| CIPD Ymarfer Adnoddau Dynol | 3 | | ✓ | | |
| CIPD Ymarfer Adnoddau Dynol - Rheoli Adnoddau Dynol | 5 | | ✓ | | |
| Cyflwyniad i Egwyddorion Rheoli Prosiect | - | | ✓ | | ✓ |
| ILM Arweinyddiaeth a Sgiliau Tîm | 2 | ✓ | | | ✓ |
| ILM Arweinyddiaeth a Rheoli | 5 | ✓ | | | ✓ |

## A oeddech chi'n gwybod...

Gall Cyfreithwyr profiadol ennill hyd at £42,000 y flwyddyn.

(EMSI, 2019)

# AMAETHYDDIAETH A GOFAL ANIFEILIAID




**Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau Amaethyddiaeth a Gofal Anifeiliaid ar ein campws ym Mrynbuga yn bennaf.**

O ddefnyddio brwsh-dorrwyr yn ddiogel, i ddefnyddio plaladdwyr a chyrsiau byr ar ofal anifeiliaid, gallwn ddarparu ar gyfer ystod o ddiddordebau. Pa bynnag gwrs a ddewiswch, byddwch yn siŵr o gael digon o brofiad ymarferol!

## A oeddech chi'n gwybod...

Mae disgwyl y bydd **475** o swyddi gweithwyr Amaethyddol gwag a swyddi perthnasol yng Nghymru bob blwyddyn tan 2025

**Am ffioedd ac i wneud cais heddiw ewch i www.coleggwent.ac.uk/parttime**



| | Lefel | B |
|---|---|---|
| Cymorth Cyntaf Sylfaenol i Geffylau | - | ✓ |
| BHS Tystysgrif Marchogaeth a Diogelwch ar y Ffyrdd | Lefel Mynediad | ✓ |
| BHS Cam 2 Addysgu Hyfforddi | - | ✓ |
| BHS Cam 3 Addysgu Hyfforddi | - | ✓ |
| BHS Datblygu Sgiliau Marchogaeth | 1, 2, 3 | ✓ |
| BHS Cam 4 Gofal a Rheoli | - | ✓ |
| Cymorth Cyntaf Sylfaenol Cathod a Chŵn | - | ✓ |
| Tystysgrif Cymhwysedd Technegol City & Guilds mewn Cerdded Cŵn | - | ✓ |
| City & Guilds Diploma Cynorthwywyr Gofal Milfeddygol | 2 | ✓ |
| City & Guilds Diploma mewn Nyrsio Milfeddygol | 3 | ✓ |
| Clipio Ceffylau | - | ✓ |
| Trin Cŵn i Berchnogion Anifeiliaid Anwes | - | ✓ |
| Hwsmonaeth Anifeiliaid Ecsotig - Ymlusgiaid ac Amffibiaid | - | ✓ |
| Gwasanaeth Tân ac Achub ac Ymwybyddiaeth o Anifeiliaid | - | ✓ |
| Cyflwyniad i Wyna | - | ✓ |
| Cyflwyniad i Arddio | - | ✓ |
| NPTC Dyfarniad mewn Trin Cerbydau Pob Tirwedd | 2 | ✓ |
| NPTC Dyfarniad mewn Gweithrediadau Llif Gadwyn ac Offer Perthnasol | 2 | ✓ |
| NPTC Dyfarniad mewn Torri a Phrosesu Coed Bach | 2 | ✓ |
| NPTC Dyfarniad mewn Defnyddio Torwyr Brwshys a Thrimwyr yn Ddiogel | 2 | ✓ |
| NPTC Dyfarniad mewn Defnyddio Plaleiddiaid yn Ddiogel ar gyfer Rheoli Plâu Fertebraidd megis Llygod Mawr a Llygod | 2 | ✓ |
| NPTC Dyfarniad mewn Defnyddio Plaleiddiaid yn Ddiogel, Uned PA1 (Sylfaen) | 2 | ✓ |
| NPTC Dyfarniad mewn Defnyddio Plaleiddiaid yn Ddiogel, Uned PA2 (Taenwr Cnwd Tir, wedi'i godi neu'n dilyn) | 2 | ✓ |
| NPTC Dyfarniad mewn Defnyddio Plaleiddiaid yn Ddiogel, Uned PA6 (Dodwyr Llaw a Defnyddio Plaleiddiaid yn Ddiogel) | 2 | ✓ |
| NPTC Dyfarniad mewn Defnyddio Plaleiddiaid yn Ddiogel, Uned PA6W (Taenu Plaleiddiaid) | 2 | ✓ |
| Paratoi Ceffylau ar gyfer Cystadlaethau - Paratoi at Ddangos a Throi Allan | - | ✓ |
| Iechyd a Hwsmonaeth Anifeiliaid Bychan | - | ✓ |
| Mân-ddeiliaid (Pythefnos Defaid, Pythefnos Cig Eidion, Pythefnos Hwyaid, Pythefnos Trin Coed) | - | ✓ |
| Mân-ddeiliaid (Byw Da a Sgiliau Ystâd) | - | ✓ |
| Cludo Anifeiliaid ar y Ffordd (Teithiau Byr) | 2 | ✓ |

**Canllaw i symbolau'r campws:**
**BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys /**
**DC - Campws Dinas Casnewydd / B - Campws Brynbuga / T - Parth Dysgu Torfaen**


# CELF A DYLUNIO, Y CYFRYNGAU, FFOTOGRAFFIAETH

**Os ydych chi'n ffotograffydd brwdfrydig, neu eisiau gwella eich sgiliau gwaith nodwydd, Coleg Gwent yw'r lle perffaith i roi cychwyn arni.**

Mae gennym diwtoriaid arbenigol ac amgylcheddau dysgu cyfforddus, ac mae ein hystod o gyrsiau creadigol yn cynnig cyfle i ddysgu sgiliau newydd ochr yn ochr â phobl o'r un anian.


*Rwy'n mwynhau ffotograffiaeth fel hobi ac roeddwn eisiau datblygu fy sgiliau. Rwy'n mwynhau popeth am fy nghwrs ac mae astudio gyda'r nos yn gweithio'n dda i mi gan fy mod i'n gallu gadael y gwaith a dod yn syth i'r coleg. Os ydych eisiau datblygu eich diddordeb, ac yn awyddus i newid gyrfa, ewch amdani - rwy'n falch fy mod wedi gwneud hynny!*

**Justine Bennett**
Cyflwyniad i Ffotograffiaeth




**Am ffioedd ac i wneud cais heddiw ewch i www.coleggwent.ac.uk/parttime**

| | Lefel | BG | C | DC | T |
|---|---|---|---|---|---|
| Adobe Photoshop | - | | ✓ | | |
| Celf a'r Cyfryngau | - | | | | ✓ |
| BTEC Dyfarniad mewn Technegau Celf ar gyfer Hunan-ddatblygiad | 1 | | | ✓ | |
| Creu Print Creadigol | - | | ✓ | | |
| Crosio i Ddechreuwyr | - | ✓ | | | |
| Crosio Canolig | - | ✓ | | | |
| Cwrs Busnes Dronau | - | | ✓ | | |
| Blodeuwriaeth | - | ✓ | | | |
| Cyflwyniad i Serameg | - | ✓ | | | |
| Ffotograffiaeth | - | ✓ | ✓ | | |
| Photoshop i Ddechreuwyr | - | | | | ✓ |



**Canllaw i symbolau'r campws:**
**BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys /**
**DC - Campws Dinas Casnewydd / B - Campws Brynbuga / T - Parth Dysgu Torfaen**

# ARLWYO A LLETYGARWCH



**Mireiniwch eich sgiliau diogelwch bwyd, neu meistrolwch sgiliau coginio newydd yn eich ceginau masnachol - mae rhywbeth at ddant pawb yn Coleg Gwent!**

Dysgwch gan diwtoriaid sydd â gwybodaeth ymarferol am y diwydiant a chael profiad amhrisiadwy yn ein bwyty ar gampws Crosskeys, Morels, sydd ar agor i'r cyhoedd.

> *Rwy'n mwynhau elfen ymarferol y cwrs hwn yn fawr, gan siarad â chwsmeriaid a'r theori y tu ôl i sut mae'r bwyd yn cael ei wneud. Yn ddiweddar buom yn gweithio gyda'r cogyddion yn y gegin ar y Marriott Caerdydd.*
>
> **Aled James**
> Coginio Proffesiynol Lefel 1



| | Lefel | C |
|---|---|---|
| Coginio er Boddhad | - | ✓ |
| HABC Dyfarniad mewn Diogelwch Bwyd wrth Arlwyo | 2, 3 | ✓ |
| HABC Dyfarniad mewn Rheoli Diogelwch Bwyd wrth Arlwyo | 4 | ✓ |
| NVQ Gwasanaeth Diodydd | 2 | ✓ |
| NVQ Gwasanaeth Cwsmer | 2, 3 | ✓ |
| NVQ Gwasanaeth Bwyd a Diod | 2 | ✓ |
| NVQ Cynhyrchu a Choginio Bwyd | 2 | ✓ |
| NVQ Derbynfa Blaen y Tŷ | 2 | ✓ |
| NVQ Cadw Tŷ | 2 | ✓ |
| NVQ Goruchwyliaeth ac Arweinyddiaeth Lletygarwch | 3 | ✓ |
| NVQ Rheoli Lletygarwch | 4 | ✓ |
| NVQ Gwasanaethau Cegin | 2 | ✓ |
| NVQ Coginio Proffesiynol | 2, 3 | ✓ |

## A oeddech chi'n gwybod…

**Mae'r galw am Gogyddion a swyddi perthnasol eraill yn y dyfodol yng Nghymru yn uchel.**

Mae disgwyl y bydd **437** o swyddi Cogyddion gwag a swyddi perthnasol yng Nghymru bob blwyddyn tan 2025.

# CYFRIFIADURA A THECHNOLEG DDIGIDOL

**Mae elfen o TG yn cael ei ddefnyddio gan bron bob busnes modern, felly mae astudio un o'n cyrsiau Cyfrifiadura a Thechnoleg Gwybodaeth yn golygu fod y byd ar flaenau eich bysedd!**

Byddwch yn cael eich dysgu mewn ystafelloedd TG gyda'r holl gyfarpar, ac yn gallu defnyddio'r technolegau, meddalwedd a chaledwedd diweddaraf gyda thiwtoriaid sydd â phrofiad ymarferol o'r diwydiant.

## A oeddech chi'n gwybod...

Gall Uwch Beirianwyr Cyfrifiaduron profiadol ennill hyd at **£31,000** y flwyddyn.

Gall Ymgynghorwyr Seiberddiogelwch profiadol ennill hyd at **£43,000** y flwyddyn.

(EMSI, 2019)



*Ar hyn o bryd, rwy'n gweithio ym maes TG fel dadansoddwr technegol desg wasanaeth ac rwyf eisiau datblygu fy ngyrfa mewn Rhwydweithio. Mae ceisio cydbwyso bywyd gartref â dau o blant wedi bod yn heriol, ond rwyf wedi cael cefnogaeth arbennig gan fy nhiwtor sydd bob amser yn hapus i helpu.*

**David Davies**
Myfyriwr Cyfrifiadura



**Am ffioedd ac i wneud cais heddiw ewch i www.coleggwent.ac.uk/parttime**



| | Lefel | BG | DC | T |
|---|---|---|---|---|
| Cwrs Gosodiadau Cyfrifiaduron | - | | ✓ | |
| Hanfodion Seiber-ddiogelwch | - | ✓ | ✓ | |
| Trwsio Cyfrifiadur - Cwrs Hunangymorth | - | | ✓ | |
| Cyflwyniad i Dechnolegau Cyfrifiadura Cwmwl | - | ✓ | ✓ | |
| Cyflwyniad i Raglenni - Dod yn Godiwr | - | | ✓ | |
| Cyflwyniad i Ddylunio Gwefannau | - | | | ✓ |
| Microsoft Excel | 1, 2, 3 | ✓ | | |
| Defnyddio'r Rhyngrwyd | - | ✓ | | |

**Gallwch gael eich cyflogi gan unrhyw sefydliad sy'n defnyddio TG – felly mae'r byd yn eiddo i chi!**

Canllaw i symbolau'r campws:
BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys /
DC - Campws Dinas Casnewydd / B - Campws Brynbuga / T - Parth Dysgu Torfaen

# ADEILADU

**Os ydych chi'n ddysgwr ymarferol sy'n dyheu am yrfa mewn gosod briciau, gwaith coed, plymio, trydanol, plastro neu baentio ac addurno; mae ein cyrsiau adeiladu yn berffaith i chi!**

Beth am ymuno â ni a hogi'ch sgiliau yn ein gweithdai sydd â'r hoff offer?



## A oeddech chi'n gwybod...

Mae'r galw am Drydanwyr a swyddi perthnasol eraill yn y dyfodol yng Nghymru yn uchel.

Gall Reolwyr Safleoedd Adeiladu profiadol ennill hyd at **£47,500** y flwyddyn.

(EMSI, 2019)



| | Lefel | BG | DC | T |
|---|---|---|---|---|
| Hyfforddiant Baxi | - | | ✓ | |
| Cynnal a Chadw Adeiladau, Trwsio Aml-grefft a Gweithrediadau Adnewyddu (Adeiladu) | 1 | | ✓ | |
| City & Guilds Dyfarniad mewn Gofynion ar gyfer Gosodiadau Trydanol - 18fed Argraffiad | 3 | | ✓ | |
| City & Guilds Diploma mewn Gwaith Saer ar Fainc | 3 | | ✓ | |
| City & Guilds Diploma mewn Pensaernïaeth ar Safle | 3 | | ✓ | |
| City & Guilds - Gwaith Tir | 2 | | ✓ | |
| Cskills Awards Cynllun Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Amgylcheddol Safle (SEATS) | 3 | | ✓ | |
| Cskills Awards Cynllun Hyfforddiant Diogelwch Rheoli Safle (SMSTS) | Proffesiynol | | | ✓ |
| Cskills Awards Diogelwch Safle ac Ymwybyddiaeth o Iechyd a Diogelwch | Proffesiynol | | | ✓ |
| Cskills Awards Cynllun Hyfforddiant Diogelwch Goruchwylydd Safle (SSSTS) | Proffesiynol | | | ✓ |
| EAL Diploma mewn Gosod Trydanol | 2, 3 | ✓ | | |
| ILM Dyfarniad mewn Ymarfer Arweinyddiaeth a Rheoli ar gyfer Adeiladu a'r Sector Amgylchedd Adeiledig | 3 | ✓ | | |
| NEBOSH Tystysgrif Genedlaethol mewn Iechyd a Diogelwch Adeiladu | 3 | | | ✓ |
| NVQ Gosod Systemau ac Offer Electrodechnegol | 3 | ✓ | | |
| NVQ Plymio a Gwresogi | 2 | ✓ | | |
| Paentio ac Addurno | - | ✓ | | |

**Canllaw i symbolau'r campws:**
**BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys /**
**DC - Campws Dinas Casnewydd / B - Campws Brynbuga / T - Parth Dysgu Torfaen**

# ADDYSG

**Y tu mewn neu y tu allan i'r dosbarth, gall gyrfa sy'n helpu eraill fod yn werth chweil.**

Pa beth bynnag yrfa rydych chi'n ei dewis o fewn addysg, mae ein cyrsiau yn cynnig amrywiaeth eang o opsiynau i'ch helpu chi roi cychwyn ar bethau. Manteisiwch ar ein tiwtoriaid profiadol, grwpiau dysgu bach a chefnogol a chyfleusterau arbennig.



## A oeddech chi'n gwybod...

**Mae'r galw am Athrawon a swyddi perthnasol eraill yn y dyfodol yng Nghymru yn uchel.**

Mae disgwyl y bydd **776** o swyddi Athrawon gwag a swyddi perthnasol yng Nghymru bob blwyddyn tan 2025.

---

Gall athrawon profiadol ennill hyd at **£40,000** y flwyddyn.

Gall athrawon gyda chyfrifoldebau rheoli dderbyn cyflog uwch na hyn.

(EMSI, 2019)

---

| | Lefel | BG | C | T |
|---|---|---|---|---|
| City & Guilds Diplma mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu mewn Ysgolion | 2, 3 | | ✓ | ✓ |
| PCET Addysg a Hyfforddiant | 3 | ✓ | | |



*Gweithiodd y cwrs hwn yn dda i mi a fy ngofal plant, mae hefyd yn agos i gartref. Mae yna wau agos grwp ohonom yn y dosbarth sydd yn eich gwneud chi'n fwy o unigolyn na dim ond un o gannoedd i mewn darlithfa. Rydw i wedi bod yn llawn cymhelliant ac yn gyffrous iawn mynd yn sownd i mewn gyda fy ngwaith, dwi byth wir yn teimlo fel hyn yn y brifysgol.*

**Hannah Williams**
PCET

# PEIRIANNEG A MODUROL

**Pa un ai fod gennych ddiddordeb mewn ceir a beiciau modur, neu rydych eisiau ail-hyfforddi fel trydanwr, gallwn gynnig cyrsiau rhan amser sy'n addas i chi.**

Mireiniwch eich sgiliau yn ein gweithdai o'r radd flaenaf, defnyddio offer llaw ac offer peiriannol, yn ogystal â pheiriannau a reolir gyda chyfrifiadur a phrototeipio cyflym.



## A oeddech chi'n gwybod...

Mae'r galw am swyddi Mecaneg a swyddi perthnasol eraill yn y dyfodol yng Nghymru yn uchel.

Gall Peirianwyr profiadol ennill hyd at **£45,500** y flwyddyn.

(EMSI, 2019)

**Am ffioedd ac i wneud cais heddiw ewch i www.coleggwent.ac.uk/parttime**



*Rydw i wedi bod eisiau gwneud y cwrs hwn ers oddeutu 20 mlynedd, ond fel menyw roeddwn i'n teimlo'n bryderus. Ond mae'r bechgyn yn gyfeillgar iawn ac mae yna fenyw arall ar fy nghwrs hefyd. Rydych yn cael llawer o gymorth ar y cwrs, ac os byddwch yn rhoi ymdrech I mewn i'ch gwaith, bydd y tiwtoriaid yn rhoi'r un ymdrech yn ôl!*

**Helen Hagley**
Myfyriwr Atgyweirio Cyrff Ceir

| | Lefel | BG | C | DC |
|---|---|---|---|---|
| Cynnal a Chadw Ceir i Ddechreuwyr | - | | | ✓ |
| Cynnal a Chadw / Trwsio Cerbydau Sylfaenol | - | | ✓ | |
| City & Guilds Dyfarniad mewn Sgiliau Weldio Uwch | 3 | | | ✓ |
| City & Guilds Dyfarniad mewn Profion MOT | 2 | | | ✓ |
| City & Guilds Dyfarniad mewn Rheoli Canolfan Profion MOT | 3 | | | ✓ |
| City & Guilds Asesiad Blynyddol MOT | - | | | ✓ |
| City & Guilds Dylunio gyda Chymorth Cyfrifiadur | 1, 2, 3 | ✓ | ✓ | ✓ |
| City & Guilds Diploma mewn Peirianneg - Peirianneg Trydanol | 3 | | ✓ | |
| City & Guilds Diploma mewn Peirianneg - Peirianneg Mecanyddol Gwneuthuriad | 3 | | ✓ | |
| Peirianneg (Trydanol) | 3 | | ✓ | |
| Peirianneg (Gwneuthuriad) | 3 | | ✓ | |
| Peirianneg (Mecanyddol) | 2 | | ✓ | |
| EAL Dyfarniad mewn Gosodiadau Trydanol: Archwilio a Phrofi/Dilysiad Cychwynnol | 3 | ✓ | | |
| EAL Diploma NVQ Peirianneg (Gwneuthuriad a Weldio) | 3 | | | ✓ |
| IMI Tystysgrif Technegydd Archwilio Cerbydau | Proffesiynol | | | ✓ |
| IMI Diploma mewn Cynnal a Chadw Cerbydau Ysgafn | 1 | | ✓ | |
| Cyflwyniad i Adfer Corff Car | - | | | ✓ |
| IOSH Gweithio'n Ddiogel | Proffesiynol | | ✓ | |
| MMA Weldio | - | | | ✓ |
| Cynnal a Chadw a Thrwsio Beiciau Modur | - | | ✓ | |
| NVQ PEO (Gwneuthuriad a Weldio) | 1, 2 | | | ✓ |
| NVQ PEO (Mecanyddol) | 2 | | ✓ | |
| Profion ac Archwiliadau PAT | Proffesiynol | | | ✓ |

**Canllaw i symbolau'r campws:**
**BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys /**
**DC - Campws Dinas Casnewydd / B - Campws Brynbuga / T - Parth Dysgu Torfaen**

# SAESNEG I SIARADWYR IEITHOEDD ERAILL

**Os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf bydd ein cyrsiau yn helpu i wella eich sgiliau Saesneg.**

Gallai hyn eich helpu i ddod o hyd i gyflogaeth, i gyfathrebu ag ysgol eich plentyn, y Ganolfan Byd Gwaith neu'ch meddyg, neu ddim ond gwneud eich bywyd yn y DU ychydig yn haws.

| | Lefel | DC |
|---|---|---|
| ESOL | Lefel Mynediad 1, 2 & 3 | ✓ |
| L2 ESOL | 2 | ✓ |
| ESOL Sgiliau am Oes (Siarad a Gwrando) | Lefel Mynediad 1, 2 & 3 | ✓ |
| ESOL Sgiliau am Oes (Siarad a Gwrando) - Dyfarniad Lefel 2 | 2 | ✓ |
| ESOL Sgiliau am Oes (Ysgrifennu) | Lefel Mynediad 1, 2 & 3 | ✓ |
| ESOL Sgiliau am Oes (Ysgrifennu) - Dyfarniad Lefel 2 | 2 | ✓ |

## Ar ein cyrsiau gallwch:

- Wella eich Saesneg - siarad, gwrando, darllen, ysgrifennu, gramadeg a geirfa
- Dysgu sut i ysgrifennu yn ffurfiol ac anffurfiol wrth lunio negeseuon e-bost, CVs a cheisiadau am swydd
- Dysgu am fywyd yn y DU
- Dysgu am y sgiliau gwaith rydych eu hangen i gael swydd neu ddyrchafiad yn y Gwaith
- Dysgu am fathemateg gan gynnwys mesur, cyllidebu a sut i ddarllen amserlenni



REACH+

Os hoffech gofrestru ar un o'n cyrsiau, rhaid i chi yn gyntaf ymweld â'n Hwb Reach+ yn Llyfrgell Ganolog, Casnewydd. Yr Hwb yw'r pwynt canolog i unrhyw un sy'n dymuno astudio ESOL. Bydd y tîm yn asesu pob person ac yn eu cyfeirio at y cwrs a'r cymorth iawn. Gellir trefnu apwyntiadau drwy ffonio'r Hwb ar 01633 414917 neu gallwch alw heibio'r llyfrgell. Mae hon yn rhan o Brosiect Integreiddio Ffoaduriaid ReStart.

AilGychwyn ReStart

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

Caiff y prosiect AilGychwyn: Integreiddio Ffoaduriaid ei ariannu'n rhannol drwy Gronfa Lloches, Ymfudo ac Integreiddio yr Undeb Ewropeaidd. Gwneud rheoli llif ymfudo'n fwy effeithiol ar draws yr Undeb Ewropeaidd.

The ReStart: Refugee Integration project is part-funded through the European Union Asylum Migration Integration Fund. Making management of migration flows more efficient across the European Union.

**Am ffioedd ac i wneud cais heddiw ewch i www.coleggwent.ac.uk/parttime**

# SGILIAU BYW'N ANNIBYNNOL

**Mae ystod o gyrsiau ar gael sy'n addas i fyfyrwyr o amrywiol gefndiroedd a gallu addysgiadol. Fe wnawn eich cynorthwyo i ddysgu rheoli eich arian eich hun, coginio eich bwyd eich hun, cynllunio eich gyrfa eich hun a byw bywyd annibynnol yn eich cymuned.**

Ynghyd â dysgu sgiliau ymarferol, byddwn yn eich helpu i gynyddu eich hunanhyder i'ch cynorthwyo i fyw bywyd gweithgar. Byddwch yn astudio cymysgedd o sgiliau galwedigaethol a chreadigol fel celf a chrefft, coginio, garddio a TG, ynghyd â pharhau i wella eich llythrennedd, rhifedd a sgiliau hanfodol eraill. Byddwch hefyd yn mynd ar deithiau ac ymweliadau i leoliadau megis amwynderau, amgueddfeydd ac atyniadau twristiaeth lleol ynghyd â chyfranogi mewn gweithgareddau codi arian a menter.

Nid oes gofynion mynediad ffurfiol gan ystyrir anghenion bob dysgwr ar sail unigol; byddwn yn asesu eich anghenion unigol i sicrhau eich bod yn cofrestru ar y cwrs iawn i chi. Byddwch yn cael y cyfle i fynychu rhaglen drosglwyddo lle gallwch gwrdd â'r tiwtoriaid, mynychu rhai gwersi a dod i adnabod y coleg cyn i chi ddechrau.

| | Lefel | DC |
|---|---|---|
| ILS Byw'n Annibynnol | Lefel Mynediad 2 | ✓ |

“

*Mae'r cwrs yn dda iawn gan eich bod yn cael gwneud pethau gwahanol a dysgu sgiliau newydd. Mae ychydig o astudio a gwaith ymarferol; byddwn yn argymell coginio a gwaith coed. Mae'r athrawon yn barod i helpu ac mae'r dosbarth yn fach ond yn ddymunol. Rwy'n gobeithio dod o hyd i swydd ar ôl gorffen y cwrs hwn.*

**Elliot Game**
Sgiliau Byw'n Annibynnol



# TRIN GWALLT A THERAPI HARDDWCH

**Efallai eich bod eisiau agor eich salon harddwch eich hun, efallai eich bod eisoes eisiau gweithio fel triniwr gwallt, neu efallai mai colur theatrig sy'n apelio atoch chi?**

Drwy ddilyn un o gyrsiau rhan amser Coleg Gwent gallwch gychwyn gweithio at gyflawni eich uchelgeisiau ym maes trin gwallt a harddwch, waeth beth ydyn nhw!

## A oeddech chi'n gwybod...

Mae disgwyl y bydd **445** o swyddi Trin Gwallt gwag a swyddi perthnasol yng Nghymru bob blwyddyn tan 2025.

(EMSI, 2019)



**Am ffioedd ac i wneud cais heddiw ewch i www.coleggwent.ac.uk/parttime**

| | Lefel | BG | C | DC |
|---|---|---|---|---|
| Torri Gwallt i Ddechreuwyr | - | | | ✓ |
| Sychu Gwallt | - | ✓ | | |
| City & Guilds Tystysgrif mewn Gwasanaethau Harddwch | 2 | | | ✓ |
| City & Guilds Tystysgrif mewn Gwasanaethau Trin Gwallt | 2 | | | ✓ |
| Gwallt i Fyny | - | ✓ | | |
| Cyflwyniad i Dorri Gwallt | - | | | ✓ |
| Cyflwyniad i Bermio Gwallt | - | ✓ | | |
| Colur (NVQ) | 2 | | ✓ | |
| Trin Dwylo/Traed | - | ✓ | | |
| VTCT Dyfarniad mewn Celf Colur Ffotograffiaeth | 2 | | ✓ | |
| VTCT Dyfarniad mewn Rhoi Colur Sylfaenol | 1 | ✓ | | |
| VTCT Dyfarniad mewn Dylunio Celf y Corff | 2 | | ✓ | |
| VTCT Dyfarniad mewn Triniaethau Amrantau ac Aeliau | 2 | ✓ | | |
| VTCT Dyfarniad mewn Estyniadau Amrantau | 3 | ✓ | | |
| VTCT Dyfarniad mewn Trin Ewinedd gan ddefnyddio Gel UV | 3 | ✓ | | |
| VTCT Tystysgrif mewn Tylino'r Corff a Therapi Cerrig | 3 | | ✓ | |

“

*Rwyf wastad wedi bod eisiau gwneud hyn - mae lluniau ohonof yn trin gwallt pan oeddwn yn wyth mlwydd oed! Rwy'n difaru na wnes i hyn amser maith yn ôl. Fy hoff rannau o'r cwrs yw lliwio bonion gwallt a thorri. Mae'r gefnogaeth gan staff wedi bod yn arbennig, yn enwedig gyda'r agweddau damcaniaethol ar y cwrs, sydd wedi bod yn fwy heriol i mi.*

**Adam Gould**
Tystysgrif mewn Gwasanaethau Trin Gwallt

**Canllaw i symbolau'r campws:**
**BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys / DC - Campws Dinas Casnewydd / B - Campws Brynbuga / T - Parth Dysgu Torfaen**

# IECHYD, GOFAL A'R BLYNYDDOEDD CYNNAR

**Mae ein cyrsiau iechyd, gofal a blynyddoedd cynnar rhan-amser yn cwmpasu ystod o sgiliau, yn cynnwys cymorth cyntaf, cwnsela a chymorth cyntaf iechyd meddwl.**

Beth am ymuno â ni i ddiweddaru eich sgiliau, ennill cymhwyster hanfodol neu gychwyn ar y llwybr at yrfa newydd?

> *Rwyf eisiau gweithio yn y sector gofal cymdeithasol, ac mae'r cwrs hwn yn agor llawer o ddrysau! Rwy'n hoff o'r amrywiaeth o unedau rydym yn eu hastudio, ac mae'r tiwtoriaid yn gefnogol tu hwnt. Hoffwn fynd ymlaen i astudio seicoleg yn y brifysgol.*

**Faith Mclachlan**
Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2



## A oeddech chi'n gwybod...

Gall cwnselwyr profiadol ennill hyd at **£26,500** y flwyddyn.

(EMSI, 2019)

**Am ffioedd ac i wneud cais heddiw ewch i www.coleggwent.ac.uk/parttime**



| | Lefel | BG | C | DC |
|---|---|---|---|---|
| AIM Tystysgrif mewn Sgiliau Cwnsela | 2, 3 | ✓ | | ✓ |
| AIM Diploma mewn Ymarfer Cwnsela | 4 | | | ✓ |
| City & Guilds Datblygiad Dysgu Chwarae Gofal Plant 'CORE' | 2 | | | ✓ |
| City & Guilds Iechyd a Gofal Cymdeithasol CORE | 2 | ✓ | | |
| Amrywiaeth a Cham-drin Domestig | - | | ✓ | |
| HABC Dyfarniad mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith | 3 | | | ✓ |
| HABC Dyfarniad mewn Cymorth Cyntaf yn y Gwaith | 3 | | | ✓ |
| HABC Dyfarniad mewn Cyflwyniad i Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl | 2 | | ✓ | |
| HABC Dyfarniad mewn Cymorth Cyntaf Plant | 3 | | | ✓ |
| HABC Dyfarniad mewn Deall Iechyd Meddwl yn y Gweithle i Reolwyr | 3 | | ✓ | |
| Cyflwyniad i Iechyd Plant a Phobl Ifanc | - | | ✓ | |
| Cyflwyniad i Effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod | - | | ✓ | |
| Cyflwyniad i Gefnogi Grwpiau sy'n Agored i Niwed (Plant) | - | | ✓ | |
| Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl | - | | | ✓ |
| Cynllunio Gweithgareddau i Annog Gwydnwch (Digwyddiadau'n ymwneud â Thrawma) | - | | ✓ | |
| Cynllunio Gweithgareddau i Annog Gwydnwch (Meithrin Strategaethau Iechyd Meddwl Da) | - | | ✓ | |

# ERDD, DRAMA A DAWNS

**Os yw'r ddawn gennych chi, bydd y cwrs hwn yn eich helpu chi i ysbrydoli, annog a datblygu'r ddawn honno.**

Dysgwch yn ein stiwdios drama gyda'r holl offer a derbyn mewnbwn gan arbenigwyr yn y diwydiant, yn ogystal â chymryd eich camau cyntaf i ymladd heb arfau ar gyfer y llwyfan a'r sgrin.

| | Lefel | C |
|---|---|---|
| Ymladd dros y Llwyfan a'r Sgrîn | - | ✓ |



*Hoffwn lwyddo yn y diwydiant ffilm. Fy nghyngor i fyfyrwyr sydd eisiau astudio'r cwrs hwn? Ewch amdani - rydych yn cael cymaint o gymorth. Pan ddechreuais y cwrs hwn nid oeddwn yn gwybod unrhyw beth am actio ac mae'r tiwtoriaid wedi fy helpu i gyrraedd y fan hon.*

**Dylan Barry**
Myfyriwr Celfyddydau Perfformio

# LLWYBR AT RADD/ PRIFYSGOL

## (MYNEDIAD AT ADDYSG UWCH)

**Mae gradd brifysgol yn gyraeddadwy hyd yn oed os nad oes gennych unrhyw gymwysterau blaenorol.**

Gall ein llwybr Nyrsio, Meddygol ac Iechyd rhan amser eich arwain chi at eich cwrs gradd dewisol, a'ch rhoi chi ar ben ffordd i lwyddo a chael eich swydd ddelfrydol.

“

*Roedd angen cymhwyster arnaf i fynd ymlaen â ffisiotherapi. Er fy mod yn gweithio fel Cynorthwyydd Ffisio, roeddwn yn teimlo'n rhwystredig yn methu â symud ymlaen yn fy rôl gyfredol, ond mae dod i Coleg Gwent wedi fy ngalluogi i oresgyn y rhwystr hwnnw. Roedd fy athrawon yn frwdfrydig ac wedi'u cymell i gael eu myfyrwyr i fynd i'r brifysgol ac i wneud y gorau gallant ar eu cwrs.*

**Rosalind Spooner**

Nyrsio, Astudiaethau Meddygol a Gofal Iechyd



## FELLY, PAM ASTUDIO LLWYBR AT RADD?

**01**

**Bydd yn eich helpu i wella eich rhagolygon, gan wneud llwyddiant yn fwy tebygol a'ch helpu i wireddu'r yrfa ddelfrydol honno.**

**02**

**Mae'n profi bod gennych sgiliau gwerthfawr megis astudio'n annibynnol a chwrdd â therfynau amser.**

**03**

**Mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr yn gofyn am radd, mae'n dangos eich bod yn gymwys.**

**04**

**Mae'n profi y gallwch ymrwymo i rywbeth, ymdopi â gwaith caled a mynd pob cam o'r ffordd.**

**05**

**Yn ogystal â rhoi cymhwyster i chi, byddwch yn ennill llu o brofiadau a byddwch yn sicr yn gwneud cysylltiadau i'ch helpu yn y dyfodol.**

| | Lefel | DC |
|---|---|---|
| Mynediad i AU - Astudiaethau Nyrsio, Meddygol a Gofal Iechyd | 3 | ✓ |

# CHWARAEON, TEITHIO A GWASANAETHAU CYHOEDDUS

**Os mai chwaraeon a ffitrwydd yw eich prif ddiddordeb, rydych wedi dod i'r lle cywir!**

Mae ein campysau croesawgar, tiwtoriaid gwybodus a champfeydd â chyfarpar da yn golygu ein bod yn barod i'ch helpu i gyflawni eich nodau ffitrwydd personol neu yrfaol. Rydym yn cynnig dewis o gyrsiau yn ymwneud â hyfforddi a therapi, sy'n golygu y byddwch yn ein gadael ni yn barod i ddechrau eich gyrfa newydd.



## A oeddech chi'n gwybod...

Mae Hyfforddwr Personol hunangyflogedig yn ennill oddeutu **£20 - £40** am sesiwn un awr.

(EMSI, 2019)

Am ffioedd ac i wneud cais heddiw ewch i www.coleggwent.ac.uk/parttime

*Mae'r cwrs yn wych, ac mae'n gwbl wahanol i'r ysgol. Mae pawb yn oedolyn sydd eisiau cyflawni rhywbeth, ac mae popeth yn hamddenol ond yn brysur ar yr un pryd! Roedd meddwl am fod yn fyfyriwr hŷn yn frawychus, ond o fewn ychydig ddiwrnodau roeddwn wedi gwneud llawer o ffrindiau. Mae'r tiwtoriaid yn rhagorol - maent eisiau i chi gyflawni eich nodau, ac mae cael campfa gyda'r holl offer yn fantais enfawr!*

**Robin Hammett**
Hyfforddiant Personol Lefel 3

| | Lefel | BG | C | B |
|---|---|---|---|---|
| Ymarfer Corff a Deiet | - | ✓ | | |
| Rhoi Cynnig ar Saethyddiaeth | - | ✓ | | |
| Hunanamddiffyniad | - | ✓ | | |
| Rhoi Tâp a Strapio ar gyfer Timau Chwaraeon | - | | ✓ | |
| YMCA Dyfarniad mewn Hyfforddi Ymarfer Corff Cylchred | 2 | | ✓ | ✓ |
| YMCA Dyfarniad mewn Beicio Grŵp Dan Do | 2 | | | ✓ |
| YMCA Dyfarniad mewn Hyfforddi Sesiynau Hyfforddiant Kettlebell | 2 | | ✓ | ✓ |
| YMCA Tystysgrif mewn Hyfforddiant Ffitrwydd | 2 | ✓ | ✓ | ✓ |
| YMCA Tystysgrif mewn Hyfforddiant Personol | 3 | | | ✓ |
| YMCA Diploma mewn Hyfforddiant Personol (Ymarferydd) | 3 | | | ✓ |
| YMCA Tystysgrif mewn Hyfforddiant Ffitrwydd Dwys (Unedau Gorfodol) | 2 | | | ✓ |
| YMCA Tystysgrif mewn Hyfforddiant Ffitrwydd Dwys (Ymarfer Corff i Gerddoriaeth) | 2 | | | ✓ |
| YMCA Tystysgrif mewn Hyfforddiant Dwys yn y Gampfa (Ymarferol) | 2 | | | ✓ |
| YMCA Diploma mewn Atgyfeirio i Ymarfer Corff | 3 | | | ✓ |
| YMCA Tystysgrif mewn Therapi Tylino Chwaraeon | 3 | | | ✓ |

**Canllaw i symbolau'r campws:**
**BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys /**
**DC - Campws Dinas Casnewydd / B - Campws Brynbuga / T - Parth Dysgu Torfaen**

# BAROD AM Y CAM NESAF?

**A oeddech yn gwybod y gallwch ennill cymhwyster prifysgol yn Coleg Gwent?**

Mae gennym nifer cynyddol o gyrsiau addysg uwch, felly beth am gael cip ar beth bynnag sydd o ddiddordeb i chi, yn ein canllaw AU neu ar ein gwefan.



**Cymwysterau lefel prifysgol ar eich stepen drws!**

## ER MWYN GRADDEDIGION

### GALLWCH ASTUDIO CYRSIAU MEWN...

- ✓ Astudiaethau Ceffylau ac Anifeiliaid
- ✓ Adeiladu a’r Amgylchedd Adeiledig
- ✓ Busnes, Rheolaeth a Thwristiaeth
- ✓ Diwydiannau Creadigol
- ✓ Iechyd a Gofal Cyhoeddus
- ✓ Dyniaethau ac Addysg
- ✓ Gwyddoniaeth, Peirianneg a Thechnoleg
- ✓ Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus

Darganfyddwch fwy, a gwnewch gais, yn:

**www.coleggwent.ac.uk/au**

**Pam astudio cymhwyster prifysgol gyda Coleg Gwent?**

Gallwch arbed arian ar deithio a llety yn ogystal ag ar eich ffioedd dysgu. Mae ein ffioedd cwrs yn is na’r mwyafrif o brifysgolion ac mae’n berffaith ar gyfer astudio addas o amgylch ymrwymiadau gwaith/bywyd.

Mae ein dosbarthiadau yn llai ac yn fwy agos atoch na lleoliad prifysgol fel y gallwch gael y cymorth a’r gefnogaeth sydd eu hangen arnoch. Mae yna lawer o gymorth ariannol ar gael gyda chymorth ar gyfer ffioedd dysgu, costau byw a gofal plant. Gallech fod yn gymwys i gael grant costau byw o hyd at £4,500 y flwyddyn!

**Ddim yn sicr a ydych chi’n bodloni’r gofynion?**

Nid oes gennym ofynion caeth ar gyfer ein cyrsiau addysg uwch; gan ein bod ni’n eich ystyried chi fel unigolyn. Rydym yn edrych ar eich bywyd a’ch profiad gwaith, yn ogystal â chymwysterau blaenorol.

University of South Wales Prifysgol De Cymru | 1872 Prifysgol Aberystwyth University | University of Worcester | Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd | Pearson

**Am ffioedd ac i wneud cais heddiw ewch i www.coleggwent.ac.uk/he**
**helo@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)**